

Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Gymunedol Dyffryn Y Swistir

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2025

Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Dyffryn Y Swistir yn gymuned gynhwysol, sy'n rhoi pwyslais cryf ar ddysgu, lles a datblygiad personol disgyblion. Mae gan y pennaeth weledigaeth bwrpasol, sy'n helpu sicrhau bod disgyblion yn cael profiadau dysgu diddorol mewn amgylchedd dysgu difyr a gofalgwr. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ymddygiad rhagorol a pharodrwydd i ddysgu ymhlith disgyblion. Mae'r weledigaeth synhwyrol, ganmoladwy a chadarn hon, sy'n cynnwys cyfraniadau gan staff a'r gymuned ehangach, yn cefnogi arferion gwella'r ysgol yn gadarn.

Mae athrawon a staff cymorth yn gweithio gyda'i gilydd yn gydlynus i sicrhau darpariaeth gwricwlaidd eang a chytbwys. Maent yn dîm o staff ymroddgar a brwdfrydig sy'n canolbwytio ar hyrwyddo dysgu a lles disgyblion yn bwrpasol. Maent yn gweithio'n ddiwyd gyda rhieni ac asiantaethau allanol ac yn gwybod yn dda am anghenion y disgyblion a'u cymuned. Mae staff yn defnyddio ardaloedd o dir helaeth yr ysgol a'u hardal leol yn effeithiol i hyrwyddo cwricwlwm pwrpasol. Fodd bynnag, nid yw'r adnoddau a'r cyfleoedd dysgu yn yr awyr agored ar gyfer disgyblion iau yn deg ar draws dosbarthiadau sylfaen.

Mae cyflymdra a llif y gwersi'n cyfateb yn dda i anghenion dysgu disgyblion, ac mae adborth athrawon i ddisgyblion i wella'u dysgu yn briodol. Mae diffyg cysondeb yn ansawdd adborth athrawon, ac nid yw'n cynorthwyo disgyblion i gyflawni'r camau nesaf yn eu dysgu yn ddigon effeithiol.

Yn yr achosion gorau, mae athrawon yn darparu cyfleoedd ysgogol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau'n bwrpasol ar draws y meysydd dysgu. Mae'r staff yn fodelau iaith medrus ac yn holi disgyblion yn dda, ac mae hyn yn arwain at gynnydd cryf ym medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd heriol i gymhwyso'u medrau ar lefelau priodol ar draws y cwricwlwm.

Mae staff a disgyblion yn meithrin perthnasoedd gwaith agos a ffyddlon. Mae staff yn annog disgyblion i gydweithio a rhannu syniadau a theimladau yn ddeallus, sy'n datblygu eu parch am bobl eraill yn llwyddiannus. Mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu medrau personol, cymdeithasol a chreadigol effeithiol, sy'n creu ymwybyddiaeth dda o'u hardal leol a gwerthfawrogiad cryf o ddiwylliannau eraill.

Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:

- A1 Gwella effeithiolrwydd adborth i dargedu'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion yn fuddiol
- A2 Cynyddu cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau ar lefelau sy'n addas o heriol ar draws y cwricwlwm

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r [adroddiad llawn](#).

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir aildddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/12/2025